

**Arolygiad Rheoliadau
Ymbelydredd Ioneiddio
(Datguddio Meddygol) (Ile
rhoddwyd rhybudd)**

Ysbyty Spire
Caerdydd

15 Hydref 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|---|----|
| 1. | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2. | Methodoleg | 4 |
| 3. | Cyd-destun..... | 5 |
| 4. | Crynodeb | 6 |
| 5. | Canfyddiadau | 7 |
| | Ansawdd Profiad y Claf | 7 |
| | Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) | 8 |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth..... | 19 |
| | Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol | 21 |
| 6. | Y Camau Nesaf..... | 22 |
| | Atodiad A..... | 23 |

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfriad â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (a'i ddiwygiadau dilynol yn 2006 a 2011). Rydym yn gwneud hyn trwy raglen o asesu ac arolygu gwasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn y sectorau annibynnol sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio.

Mae'r rheoliadau'n gosod cyfrifoldebau ar ymarferwyr, gweithredwyr a'r rheiny sy'n atgyfeirio cleifion am ddatguddiadau meddygol, a chyflogwyr y tri grŵp hyn. O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol ar y cyflogwr i greu fframwaith ar gyfer cyflenwi ymbelydredd ìoneiddio mewn modd diogel, effeithlon ac effeithiol trwy ddarparu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Gall mynd yn groes i'r rheoliadau arwain at gyflwyno hysbysiadau gwahardd, hysbysiadau gwella, neu achosion troseddol.

Lluniwyd y rheoliadau er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cael eu datguddio'n anfwriadol, yn ormodol neu'n anghywir i ymbelydredd, ac mae'r risg o ganlyniad i ddatguddio yn cael ei asesu mewn cymhariaeth â'r budd clinigol (cyfiawnhad) ym mhob achos.
- Nid yw cleifion yn cael eu datguddio mwy nag sydd angen i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg bresennol (optimeiddio).

- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil meddygol yn cael eu diogelu.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan bedair thema:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cydymffurfiaid â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth
- Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) ac uwch-reolwyr
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio ystafelloedd delweddu a'r amgylchedd
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Mae arolygiadau yn cofnodi ciplun o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Cynhaliwyd arolygiad cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gyfer delweddu diagnostig ar 15 Hydref 2015 yn adran radioleg Ysbyty Spire, Caerdydd.

Mae Ysbyty Spire yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd preifat, sy'n cynnwys ymgynghoriadau a chlinigau i gleifion allanol, ffisiotherapi, adsefydlu, a gwasanaethau diagnostig, ynghyd ag ystod lawn o wasanaethau llawfeddygaeth a chleifion mewnol.

Mae'r adran delweddu diagnostig sydd wedi'i lleoli yn yr ysbyty yn darparu radioleg gyffredinol, fflworosgopeg, tomograffeg gyfrifiadurol, mamograffeg, uwchsain, a radioleg ddeintyddol ac ymyriadol.

Caiff y gwasanaethau eu cefnogi gan gyfanswm o 39 radiolegydd, sydd oll â breintiau ymarfer yn Ysbyty Spire.

4. Crynodeb

Dyma'r tro cyntaf i AGIC wneud arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn adran radioleg Ysbyty Spire, Caerdydd. Cafodd yr arolygiad dderbyniad hynod o dda gan y rheolwyr a'r staff, a chwblhawyd a derbyniwyd yr holl ddogfennaeth o fewn yr amserlenni gofynnol.

Gwnaeth y tîm o fewn yr adran ymdrin â'r arolygiad mewn ffordd gadarnhaol iawn, ac roeddent yn awyddus i dderbyn adborth i gefnogi eu dulliau o gynnal safonau uchel o ran gofal a gwella parhaus. Cawsom groeso cadarnhaol hefyd gan gleifion, a gynigiodd adborth ar nifer o faterion.

Ni wnaeth y tîm arolygu nodi unrhyw enghraifft o fynd yn groes i'r rheoliadau, ac nid oedd unrhyw bryderon ynglŷn ag arferion o ran y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Er ein bod yn fodlon nad oedd unrhyw bryderon diogelwch, fe nodwyd rhai materion yn ystod ein harolygiad lle'r oedd angen gweithredu. Cafodd y rhain eu mynegi a'u trafod ar adeg yr arolygiad, ac roeddent yn ymwneud yn bennaf â dogfennaeth. Caiff y rhain eu hamlygu a'u disgrifio yng nghorff yr adroddiad.

Ar ddiwedd yr arolygiad, rhoddwyd adborth gennym ar ein prif ganfyddiadau a'n hargymhellion allweddol. Bydd y tîm rheoli yn cyflwyno cynllun gwella mewn ymateb i'n canfyddiadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Dywedodd cleifion wrthym fod ansawdd eu profiad yn Ysbyty Spire yn dda iawn. Derbyniwyd adborth cadarnhaol am y staff, yr adran, a'r wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt. Dywedodd pawb hefyd nad oedden nhw wedi profi unrhyw oedi wrth aros am driniaeth.

Er mwyn casglu safbwyntiau cleifion a'u teuluoedd am y gwasanaeth a dderbyniwyd, dosbarthwyd holiadur byr i nifer o unigolion.

Dosbarthwyd deg holiadur, a chwblhawyd a dychwelyd pob un ohonynt. Roedd yr ymatebion a dderbyniom yn yr holiaduron yn gadarnhaol ar y cyfan. Er enghraifft:

- Mae bob amser yn lân ac yn daclus
- Roedd yn hawdd iawn trefnu apwyntiad
- Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd yn dda ac yn addas
- Roedd yr holl driniaethau wedi'u hesbonio'n dda wrthyf

Pan dderbyniwyd sylwadau negyddol, roedd y rhain ynglŷn ag apwyntiadau, megis gwybodaeth a threfnu amser.

"Ni dderbyniais lythyr cadarnhau yn y post, a ffoniais dair gwaith i ofyn am un."

"Aildrefnwyd fy apwyntiad gwreiddiol, ac nid oedd wedi'i newid yn yr adran apwyntiadau, a achosodd rhywfaint o ddryswch."

Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn arbennig o gadarnhaol am y staff, yn cynnwys:

"Maen nhw i gyd yn gyfeillgar iawn"

"Cyfeillgar, proffesiynol ac yn barod iawn eu cymwynas"

"Dymunol ac effeithlon"

"Gwasanaeth gwych drwyddi draw"

Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Dyletswyddau'r cyflogwr

Diffinnir y cyflogwr yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) fel unrhyw berson naturiol neu gyfreithlon sydd, yng nghyswllt masnach, busnes neu fenter arall, yn cyflawni (ac eithrio fel gweithiwr cyflogedig), neu'n cyfarwyddo eraill i gyflawni, datguddiadau meddygol neu elfennau ymarferol mewn gweithfa radiolegol benodol.

Mae dogfen wedi'i henwi 'Gwybodaeth, Polisiâu a Chanllawiau ar gyfer Adrannau Delweddu Diagnostig' ar waith. Mae hon yn darparu fframwaith er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (ynghyd â nifer o reoliadau eraill), ac mae'n cael ei defnyddio ym mhob adran ddelweddu Spire Healthcare.

Yn ogystal â'r uchod, mae dogfen yn yr adran delweddu diagnostig sy'n cynnwys gweithdrefnau'r cyflogwr fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'n glir mai cyfarwyddwr yr ysbyty yw'r cyflogwr yn Ysbyty Spire, Caerdydd, ac mae'n gosod cyfrifoldebau a dyletswyddau'r cyflogwr yn glir, ac i bwy a sut mae'r tasgau hynny'n cael eu dirprwyo.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr fod â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith.

Mae'r ddogfen o'r enw 'Rheolau Lleol Diogelwch Ymbelydredd a Gweithdrefnau'r Cyflogwr dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)' yn cynnwys yr holl weithdrefnau fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Fodd bynnag, roeddent yn tueddu i fod â diffyg manylder o ran sut cyflawnir pethau. Mewn sawl achos, roedd y prosesau a gyflawnwyd gan y staff yn briodol, ond yn aml nid oedd y gweithdrefnau yn cyd-fynd â'r arferion.

Mae angen gwaith er mwyn adolygu cynnwys rhai o'r gweithdrefnau, a chynhwysir manylion ynglŷn â'r rhain yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Mae yno broses gadarn ar waith o ran rheoli dogfennau, sy'n cael ei goruchwyllo gan y Rheolwr Risg a'r Arweinydd Llywodraethu. Mae polisïau a gweithdrefnau newydd neu wedi'u diwygio yn cael eu cyhoeddi gyda 'thaflen trosglwyddo dogfen' i'r rheolwr sy'n arwyddo i ddweud eu bod wedi'u derbyn, ynghyd â thaflen 'darllen ac arwyddo' i'r staff.

Mae angen adolygu'r weithdrefn sicrwydd ansawdd, sy'n ofynnol o dan Atodlen 1(e), am fod y weithdrefn gyfredol yn canolbwyntio ar gyfarpar yn hytrach nag adolygiad systematig o'r ddogfennaeth, fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Roedd y protocolau ar gyfer radiograffeg gyffredinol ar waith ac yn ddiogel, ond nid oedd unrhyw brotocolau ar waith ar gyfer cardioleg. Mae angen rhoi sylw i hyn am fod y labordy cathetreiddio cardiaidd wedi bod yn weithredol ers 18 mis.

Argymhelliad

Mae angen adolygu cynnwys y ddogfen 'Rheolau Lleol Diogelwch Ymbelydredd a Gweithdrefnau'r Cyflogwr dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)' er mwyn sicrhau ei bod yn hollol unol â'r gofynion dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a'i bod yn cynnwys manylder digonol sy'n cyd-fynd ag arferion lleol.

Mae angen datblygu protocolau ar gyfer y labordy cathetreiddio cardiaidd.

Hysbysiadau am ddiwyddiadau

Lle bu digwyddiad pan fo unigolyn wedi bod yn agored i lawer mwy o ymbelydredd Ïoneiddio na fwriadwyd wrth dderbyn datguddiad meddygol, mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r sefydliad gofal iechyd ymchwilio iddo a hysbysu'r awdurdod priodol (AGIC).

Mae gweithdrefn ar waith o ran datguddiadau anfwriadol neu ddamweiniol, sy'n disgrifio proses eglur er mwyn hysbysu, ac mae'r holl ddiwyddiadau niweidiol a digwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi yn cael eu cofnodi ar DATIX. Os hysbysir am ddiwyddiad niweidiol difrifol, yna mae uwch-reolwr yn cael ei bennu i ymgymryd ag ymchwiliad ynghyd â dadansoddiad o wraidd y broblem.

Rhoddyd gwybod i ni fod un digwyddiad nodedig a oedd wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd yr holl fanylion priodol wedi'u darparu

i ni cyn ac yn ystod yr arolygiad. Cawsom ein bodloni bod pob cam priodol wedi'i gymryd, a bod dysgu wedi digwydd o ganlyniad i'r digwyddiad o ran newidiadau yn y weithdrefn atgyfeirio. Roedd gwybodaeth hefyd wedi'i rannu â'r bwrdd iechyd perthnasol ynglŷn â'r ymchwiliad a'r canfyddiadau a ddaeth ohono.

Paratoir adroddiad misol i rannu gwybodaeth ar hyd yr ysbyty am unrhyw ddigwyddiadau niweidiol neu ddigwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi. Rhannir yr adroddiad hwn hefyd gyda'r pwyllgor archwilio clinigol a grwpiau perthnasol eraill er mwyn hwyluso rhannu'r dysgu.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr nodi lefelau cyfeirio diagnostig (DRLs) ar gyfer archwiliadau diagnostig radio, gan ddatgan na ddisgwylir i weithdrefnau arferol fynd y tu hwnt i'r rhain pan ddilynnir arfer da a normal o ran perfformiad diagnostig a thechnegol.

Roedd gweithdrefn ar waith o ran lefelau cyfeirio diagnostig, ond roedd yn gryno. Nid oes gwybodaeth yn y weithdrefn sy'n disgrifio ymhle yr arddangosir lefelau cyfeirio diagnostig, na chwaith beth i'w wneud os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.

Roedd gwaith wedi datblygu er mwyn sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer nifer o archwiliadau, ac roedd y rhain wedi'u harddangos ymhob ystafell archwilio ac yn yr ardal tomograffeg gyfrifiadurol. Roedd yn bleser nodi bod data lleol ar gael y gellir seilio'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol arnynt. Mae pob un o'r lefelau cyfeirio diagnostig sy'n cael eu defnyddio yn Ysbyty Spire yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Roedd y gwaith hwn yn gadarnhaol, ond arddangosir lefelau cyfeirio diagnostig lleol a chenedlaethol ar gyfer rhai archwiliadau, a all beri cymhlethdod i rai aelodau o staff.

Argymhelliad

Mae angen adolygu'r weithdrefn ar gyfer defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig i gynnwys gwybodaeth leol, er mwyn tywys staff trwy'r drefn o'u defnyddio a beth i'w wneud os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.

Mae angen adolygu'r modd yr arddangosir lefelau cyfeirio diagnostig, a dylid ystyried cael un ffigur i bob archwiliad cyffredin er mwyn osgoi peri cymhlethdod i staff.

Dyletswyddau ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr

Hawl

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswyddau fod â hawl, yn unol â'r gweithdrefnau cyflogwr, i'r tasgau maent yn eu cyflawni.

Mae angen adolygu a diwygio'r weithdrefn hawl yn unol â'r rheoliadau, ynghyd â'r atodiadau perthnasol. Dylid cael gwared â'r cyfeiriadau at Korner A a B am nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach. Mae yno hefyd golofnau yn rhai o'r atodiadau sy'n aneglur, a dylid ystyried cael gwared â nhw os nad ydynt yn cyd-fynd â'r arferion bellach.

Dylai'r weithdrefn adlewyrchu'r angen i atgyfeirwyr ac ymarferwyr fod yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofrestredig. Mae hefyd angen ei datblygu ymhellach er mwyn cyd-fynd â'r arferion cyfredol, a darparu manylder ynglŷn â bod gan ddeiliaid dyletswyddau'r hawl i weithredu'r swyddogaethau, gyda'r angen am gofnodion hyfforddi sy'n ofynnol er mwyn cefnogi eu cwrpas arfer.

Argymhelliad

Mae angen adolygu'r weithdrefn hawl ac atodiadau cysylltiol a'u diwygio er mwyn cyd-fynd ag arferion a gofynion cyfredol.

Meini prawf atgyfeirio

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r cyflogwr sefydlu argymhellion mewn perthynas â'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys dosau ymbelydredd, a sicrhau eu bod ar gael i'r atgyfeiriwr.

Canllawiau Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 'iRefer: Making the Best Use of Clinical Radiology Services', yw'r meini prawf atgyfeirio sydd ar waith yn Ysbyty Spire, Caerdydd. Mae copiâu o'r canllawiau hyn ar gael yn ystafelloedd ymgynghori'r ysbyty ac ar gyfrifiadur.

Mae nifer o ffyrdd yr atgoffir atgyfeirwyr sy'n allanol i'r sefydliad am y meini prawf atgyfeirio, a'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Darperir gwybodaeth i'r meddygon teulu yn chwarterol drwy gylchlythyr, ac mae dau swyddog cyswllt meddyg teulu sy'n gweithio yn yr ysbyty sy'n cwrdd yn rheolaidd â phractisau ac yn rhannu'r wybodaeth berthnasol.

Mae angen adolygu'r weithdrefn atgyfeirio er mwyn cywirdeb pellach, a dylid rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Mae angen cael gwared â chyfeiriadau at swyddogion arfer, am na all y grŵp hwn fod yn gyfeirwyr am nad ydynt yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig.
- Cawsom ein sicrhau na fyddai atgyfeiriadau sydd wedi'u marcio 'gorchmynnwyd, ni arwyddwyd' byth yn digwydd, ac felly dylid cael gwared â nhw.
- Nid oes unrhyw reswm i gynnwys cyfeiriad at geisiadau argyfwng ar lafar am fod swyddog meddygol preswyl yn bresennol o hyd i ysgrifennu atgyfeiriad.
- Mae angen edrych ar y broses ar gyfer llofnodion llawfeddygon sydd wedi'u sganio.

Yn ogystal, gwnaethom nodi nad oedd meini prawf atgyfeirio ar gael ar gyfer delweddu deintyddol.

Argymhelliad

Dylid adolygu a diwygio'r weithdrefn atgyfeirio, a dylid rhoi gwybod i'r atgyfeirwyr am unrhyw newidiadau.

Mae angen bod meini prawf atgyfeirio ar gyfer delweddu deintyddol ar gael.

Cyfiawnhad o ddatguddiadau meddygol unigol

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyfiawnhau ac awdurdodi pob datguddiad meddygol cyn y datguddiad. Yr ymarferydd sy'n gyfrifol am gyfiawnhau'r datguddiad meddygol. Ffordd o ddangos y cyflawnwyd cyfiawnhad yw awdurdodiad, a gellir ei gyflawni gan yr ymarferydd neu, pan ddefnyddir canllawiau cyfiawnhau, gan y gweithredwr.

Mae radiograffwyr yn meddu ar hawl fel ymarferwyr radiograffeg gyffredinol. Fodd bynnag, mae yna gyfeiriad yn y weithdrefn i ganllawiau awdurdodiad, nad yw'n cyd-fynd ag arferion, a dylid cael gwared ag ef.

Argymhelliad

Dylid adolygu'r weithdrefn cyfiawnhad er mwyn sicrhau bod y manylion sydd ynddo yn berthnasol ac yn gywir.

Manylion adnabod

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i adnabod yn gywir yr unigolyn a fydd yn cael ei ddatguddio i ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd gweithdrefn adnabod cleifion ar waith, ond nid oedd yn ddigon manwl, ac amlygwyd y materion canlynol:

- Nid oedd unrhyw gyfeiriad yn y weithdrefn i ddisgrifio sut adnabuwyd cleifion yn y theatr, na chwaith beth sy'n digwydd mewn argyfwng os nad oes yno fand llawes.
- Nid oedd unrhyw gyfeiriad at gael mynediad i wasanaethau cyfieithu petai hyn yn ofynnol er mwyn adnabod claf.
- Nid oedd yr arferion da a weithredwyd yn yr adran o ran yr ymgyrch 'Pwyllo a Gwirio' wedi'u hadlewyrchu yn y weithdrefn. Nod yr ymgyrch hon yw lleihau tebygolrwydd camgymeriadau adnabod, ac mae'n gadarnhaol ei bod yn cael ei chyflwyno gan y gwasanaeth, a gellid ei hadlewyrchu yn y weithdrefn.

Argymhelliad

Adolygu a datblygu'r weithdrefn adnabod cleifion i gynnwys y materion a nodwyd.

Menywod mewn oed i gael plant

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau ar gyfer holi menywod sydd mewn oed i gael plant, er mwyn darganfod a yw menyw'n feichiog neu a allai fod yn feichiog.

Mae gweithdrefn ar waith ar gyfer canfod statws beichiogrwydd menyw sydd mewn oed i gael plant, sy'n cynnwys cyfeiriad at y broses o wirio beichiogrwydd mewn theatrau.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad yn y weithdrefn i ganfod statws beichiogrwydd a sut y gwneir hyn, ac nid oes chwaith cyfeiriad at rwystrau ieithyddol na'r gefnogaeth sydd ei hangen fel rhan o'r broses hon.

Er nad yw o fewn cwrpas y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), byddai'n arfer da i gynnwys cyfeiriad i'r weithdrefn amddiffyn plant ar gyfer sefyllfaoedd lle rhoir ymateb cadarnhaol i gwestiwn beichiogrwydd gan blentyn.

Roedd pob aelod o staff y siaradom â nhw ar ddiwrnod yr ymweliad yn eglur ar sut maent yn canfod statws beichiogrwydd menywod, a gwnaeth pob un gyfeirio at y defnydd o'r ffurflen asesu risg beichiogrwydd, a rhoddwyd copi ohoni inni ar y diwrnod. Roedd hyn yn gadarnhaol iawn, ond serch hynny, ni wnaethpwyd unrhyw gyfeiriad ato yn y weithdrefn.

Argymhelliad

Mae angen gwneud gwaith i gyfuno'r weithdrefn hon i sicrhau bod yr holl wybodaeth ynghylch gwirio statws beichiogrwydd menywod sydd mewn oed i gael plant wedi'i chynnwys ynddi.

Yn y weithdrefn ddiwygiedig, byddai'n arfer da cynnwys cyfeiriad at y weithdrefn amddiffyn plant pe canfuwyd bod plentyn yn rhoi ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn beichiogrwydd.

Datguddiadau meddygol-gyfreithiol

Mae'r rheoliadau yn datgan y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i'w dilyn yn achos o ddatguddiadau meddygol-gyfreithiol.

Mae'r weithdrefn feddygol-gyfreithiol yn cynnwys cyfeiriadau at rai ceisiadau sy'n alwedigaethol yn hytrach na meddygol-gyfreithiol. Cyfeirir at y rhain yn y weithdrefn fel 'cyflogaeth – peilotiaid awyrennau, plymwyr, gweithwyr asbestos a mabolgampwyr proffesiynol'. Mae'n bwysig bod cynnwys y weithdrefn yn adlewyrchu'r teitl.

Argymhelliad

Dylid newid teitl y weithdrefn i 'datguddiadau meddygol-gyfreithiol a galwedigaethol', neu dylid cael gwared â'r cyfeiriad at ddatguddiadau galwedigaethol o'r weithdrefn.

Optimeiddio

Mae'r rheoliadau yn gofyn bod dosys ar gyfer holl ddatguddiadau meddygol diagnostig yn cael eu cadw mor isel ag sy'n ymarferol bosib, yn gyson â'r diben arfaethedig.

Mae'r dulliau optimeiddio a nodwyd yn y weithdrefn optimeiddio yn gadarnhaol, ond roedd rhai manylion ynddi y gellir eu hadolygu, gan gynnwys:

- Nid yw'r weithdrefn yn adnabod na'n amlygu'r gwaith cadarnhaol sydd wedi'i wneud yn yr adran er mwyn sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol, rhaglen archwilio, ac adrodd ar ddigwyddiadau y llwyddwyd eu hosgoi.
- Mae cam pedwar (iv) yn y weithdrefn, sy'n cyfeirio at wahaniaethau ymarferol ar gyfer cleifion sy'n feichiog ac nad yw'n feichiog, yn ddiangen am fod cadarnhad eisoes nad yw'r claf yn feichiog.
- Mae'r camau y cyfeirir atynt fel xvi, xvii a xviii oll yn arferion da, ond maent wedi'r weithdrefn ac felly nid ydynt yn rhan o'r broses optimeiddio.

Argymhelliad

Gellir adolygu'r weithdrefn ar gyfer optimeiddio i gynnwys cyfeiriadau i'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yn yr adran, a gwneud gwelliannau fel yr amlygir uchod.

Lleihau'r tebygolrwydd o ddosys damweiniol neu anfwriadol a'u maint

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r tebygolrwydd o roi dos damweiniol neu anfwriadol i glaf yn sgil arferion radiolegol, a maint y dos hwnnw, gael ei gadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol at y diben a fwriedir.

Mae gweithdrefn ar waith ar gyfer lleihau'r tebygolrwydd o roi dos damweiniol neu anfwriadol i glaf yn sgil arferion radiolegol, a maint y dos hwnnw, fel sy'n ofynnol yn Atodlen 1(k).

Roedd yn gadarnhaol nodi bod pob digwyddiad y llwyddwyd i'w osgoi wedi'i adrodd ac wedi'i ymchwilio iddo, yn unol â pholisi digwyddiadau niweidiol . Ond mae'n bwysig bod cyfeiriad at amserlenni ar gyfer ymchwilio digwyddiadau wedi'i gynnwys yn y weithdrefn.

Argymhelliad

Dylid adolygu'r polisi digwyddiadau niweidiol i gynnwys cyfeiriadau at amserlenni ar gyfer ymchwilio digwyddiadau.

Gwerthuso clinigol

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau y cofnodir gwerthusiad clinigol o bob datguddiad meddygol yn unol â'r gweithdrefnau ysgrifenedig.

Roedd gweithdrefn ar gyfer gwerthuso clinigol ar waith, ac yn addas at y diben. Ar adeg yr ymweliad, bu trafodaeth ynglŷn â gwerthusiadau clinigol a gyflawnir tu allan i radioleg, er enghraifft fflworosgopeg yn y theatr, a pha un y gellid archwilio'r rhain i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.

Argymhelliad

Dylid archwilio gwerthusiadau clinigol a gyflawnir y tu allan i radioleg er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau.

Rhaglenni ymchwil meddygol

Mae Atodlen 1(h) o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn gofyn bod gweithdrefn ar waith ar gyfer datguddiadau meddygol a gyflawnir fel rhan o raglenni ymchwil. Ar adeg yr ymweliad, trafodom y weithdrefn ar gyfer cyflawni astudiaethau ymchwil. Trafodom sut medrai'r staff adnabod datguddiadau ymchwil, a'r buddiannau sydd i ddefnyddio ffolder ymchwil er mwyn caniatáu i'r staff wybod beth yw'r dos targed a chyfyngiad y dos i bob prosiect a'r safbwyntiau penodol yr ymgwymerwyd â nhw.

Argymhelliad

Ystyried rhoi defnydd o ffolder ymchwil ar waith, er mwyn cefnogi staff i fod yn eglur ynglŷn â datguddiadau ymchwil a'r cyfyngiadau dos/dosau targed cysylltiedig.

Pediatreg

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau meddygol plant.

Rhodddwyd gwybod i ni mai ychydig iawn o waith pediatrig a gyflawnir yn yr adran, ond mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn datgan bod angen rhoi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau i blant. Nid oes unrhyw gyfeiriad i hyn yn y weithdrefn, ond rhodddwyd gwybod i ni bod radiolegydd pediatrig yn gweithio yn yr ysbyty.

Argymhelliad

Gellid cyfeirio at bwysigrwydd rhoi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau i blant yn y weithdrefn optimeiddio, a sut yr arddangosir hyn yn Ysbyty Spire, Caerdydd.

Archwiliadau clinigol

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai gweithdrefnau'r cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, fel sy'n briodol.

Mae gweithdrefn archwilio leol ar waith, ac roedd tystiolaeth o nifer o archwiliadau a oedd wedi'u cyflawni yn yr ysbyty, a oedd yn gadarnhaol. Roedd rhai o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Archwiliadau dosau rheolaidd
- Adolygu ansawdd delweddau
- Adrodd yn ôl ar bethau dieithr rhyng-orbitol

Cyngor arbenigol

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod arbenigwr ffiseg feddygol yn cymryd rhan ym mhob datguddiad meddygol radiolegol, fel sy'n briodol.

Darperir arbenigedd ffiseg feddygol i'r gwasanaeth gan gynghorwyr diogelu rhag ymbelydredd, sydd hefyd yn gweithredu fel arbenigwyr ffiseg feddygol. Mae'r arbenigwr ffiseg feddygol yn cynnal archwiliadau dos a phrofion cyfarpar yn flynyddol ar bob safle, ac mae hefyd ar gael i roi cyngor pe bai datguddiad damweiniol neu anfwriadol.

Mae'r arbenigwr ffiseg feddygol hefyd ar gael i roi ymgynghoriad neu gyngor i'r gwasanaeth ar unrhyw adeg, ac mae hefyd yn mynychu'r Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd.

Cyfarpar

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r cyflogwr gadw stocrestr gyfredol o gyfarpar ar gyfer pob gosodiad radiolegol.

Roedd stocrestr o gyfarpar mewn lle, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Serch hynny, gwnaethom drafod yn ystod yr ymweliad yr angen i gynnwys chwistrelli gwasgedd yn y stocrestr, oherwydd gall y rhain effeithio ar ddos y claf.

Argymhelliad

Dylid cynnwys cyfeiriad at y chwistrelli gwasgedd yn stocrestr y cyfarpar.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd yn eglur o'r arolygiad bod y tîm rheoli a rheolwyr a staff radioleg yn ymroi i ddarparu gwasanaeth o safon uchel sydd yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Roedd y tîm yn cydnabod ac yn derbyn y gwaith sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni hyn, yn seiliedig ar yr adborth a roddwyd ar adeg yr ymweliad.

Roedd yr holl reolwyr a staff a gyfarfu â'r tîm arolygu wedi ymateb yn gadarnhaol i'r broses yn ei chyfanrwydd, ac yn enwedig i'r ymweliad ei hun. Dangosodd y tîm rheoli eu bod yn awyddus i dderbyn adborth, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Cadarnhaodd ein trafodaethau ar adeg yr ymweliad fod pawb yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswyddau dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Mae pwysigrwydd datblygu'r ddogfennaeth, i sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd yn ymarferol wedi'i ysgrifennu yn y dogfennau, yn sylfaenol bwysig, ac fe'i hategwyd ar adeg yr ymweliad.

Hyfforddiant

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob ymarferydd a gweithredwr fod wedi'i hyfforddi'n briodol ar gyfer y tasgau a gyflawnir, a bod y cyflogwr yn cadw cofnodion cyfredol o'r hyfforddiant hwnnw.

Roedd cofnodion hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu ar waith ac yn gyfredol ar gyfer yr holl staff a oedd yn gweithio yn yr adran, ar wahân i gofnodion hyfforddiant cyfarpar ar gyfer radiolegwyr. Wrth drafod â'r tîm ar adeg yr ymweliad, tynnwyd sylw at bwysigrwydd rhoi'r rhain ar waith.

Awgrymwyd y gallai cyfeiriadau at hyn gael eu cynnwys yn y ddogfennaeth o dan y bennod 'hawl' i danategu cwmpas yr arfer.

Argymhelliad

Adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn cadarnhau a symleiddio'u defnydd.

Adolygu cynnwys rhai o'r gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.

Datblygu cofnodion hyfforddiant cyfarpar ar gyfer radiolegwyr.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid bod yn rhagweithiol wrth hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl. Rhaid adnabod risgiau, eu monitro a, lle bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal.

Roedd y tîm arolygu'n fodlon nad oedd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau. Wrth gynnal trafodaethau â'r rheolwyr a staff, roedd hi'n amlwg bod diogelwch y cleifion a'r staff yn flaenoriaeth bwysig i'r adran.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn ystod yr ymweliad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Ysbyty Spire, Caerdydd, yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol):Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Spire, Caerdydd

Dyddiad yr Arolygiad: 15 Hydref 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|---|--------------------------------------|--|
| | Ansawdd Profiad y Claf | | | |
| | Dim | | | |
| | Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) | | | |
| 9 | <i>Mae angen adolygu cynnwys y ddogfen 'Rheolau Lleol Diogelwch Ymbelydredd a Gweithdrefnau'r Cyflogwr dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)' er mwyn sicrhau ei bod yn hollol unol â'r gofynion dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a'i bod yn</i> | Bydd y Polisi Rheolau Lleol Diogelwch Ymbelydredd ar gyfer Ysbyty Spire, Caerdydd, yn cael ei adolygu'n llawn er mwyn ymgorffori argymhellion o'r adroddiad arolygu ar 15 Hydref 2015. Bydd newidiadau yn cael eu cyfathrebu i dîm clinigol canolog Spire Healthcare er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu cymaint â phosib. | Rachel Bartley Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 Diwedd mis Rhagfyr 2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--|---|---|
| | <p><i>cynnwys manylder digonol sy'n cyd-fynd ag arferion lleol.</i></p> <p><i>Mae angen datblygu protocolau ar gyfer y labordy cathetreddio cardiaidd.</i></p> | <p>Bydd protocolau ar gyfer archwilio yn cael eu sefydlu yn labordy cathetreddio cardiaidd, a byddant ar gael i staff.</p> | | |
| 10 | <p><i>Mae angen adolygu'r weithdrefn ar gyfer defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig i gynnwys gwybodaeth leol, er mwyn tywys staff trwy'r drefn o'u defnyddio a beth i'w wneud os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.</i></p> <p><i>Mae angen adolygu'r modd yr arddangosir lefelau cyfeirio diagnostig, a dylid ystyried cael un ffigur i bob archwiliad cyffredin er mwyn osgoi peri cymhlethdod i staff.</i></p> | <p>Bydd adran lefelau cyfeirio diagnostig y polisi yn cael ei diwygio i ymgorffori gwybodaeth a chanllawiau lleol i staff ar ddefnyddio lefelau cyfeirio diagnostig, a'r broses y dylid ei dilyn os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.</p> <p>Bydd y polisi a'r lefelau cyfeirio diagnostig yn yr adran yn cael eu diwygio i gynnwys ond un ffigur ar gyfer y prif archwiliadau, a fydd yn lleol os byddant wedi'u sefydlu, ac yn genedlaethol os nad ydynt.</p> | <p>Rachel Bartley</p> <p>Rachel Bartley</p> | <p>Diwedd mis Rhagfyr 2015</p> <p>Diwedd mis Rhagfyr 2015</p> |
| 11 | <p><i>Mae angen adolygu'r weithdrefn hawl ac atodiadau cysylltiol a'u diwygio er mwyn adlewyrchu'r arfer a gofynion cyfredol.</i></p> | <p>Bydd adran hawl y rheolau lleol yn cael ei diwygio i adlewyrchu arfer cyfredol a lleol. Caiff fwy o fanylder o ran hawl, gan gynnwys cyfeiriad i'r gofynion a hyfforddiant ac ati, gael ei ymgorffori.</p> <p>Bydd Atodiad 1J yn cael ei ddiwygio er mwyn cael gwared â'r cyfeiriad at unedau Korner A a B, a gwybodaeth amherthnasol arall.</p> | <p>Rachel Bartley</p> | <p>Diwedd mis Rhagfyr 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--|---|--|
| 12 | <p><i>Dylid adolygu a diwygio'r weithdrefn atgyfeirio, a dylid rhoi gwybod i'r atgyfeirwyr am unrhyw newidiadau.</i></p> <p><i>Mae angen bod meini prawf atgyfeirio ar gyfer delweddu deintyddol ar gael.</i></p> | <p>Bydd adran atgyfeirio'r polisi yn cael ei hadolygu er mwyn cynnwys gwybodaeth fanylach ar atgyfeirwyr, y broses atgyfeirio, a'r canllawiau atgyfeirio. Bydd newidiadau yn cael eu cyfathrebu i'r holl atgyfeirwyr drwy gysylltiadau sefydledig megis cylchlythyron ymgynghorwyr a meddygon teulu.</p> <p>Sefydlu meini prawf ar gyfer delweddu deintyddol a'u darparu i atgyfeirwyr perthnasol.</p> | <p>Rachel Bartley</p> <p>Rachel Bartley</p> | <p>Diwedd mis Rhagfyr 2015</p> <p>Diwedd mis Ionawr 2016</p> |
| 12 | <p><i>Dylid adolygu'r weithdrefn cyfiawnhad er mwyn sicrhau bod y manylion sydd ynddi yn berthnasol ac yn gywir.</i></p> | <p>Bydd adran cyfiawnhad y polisi yn cael ei hadolygu a'i diwygio er mwyn bod yn fwy manwl a phenodol ar arfer lleol.</p> | <p>Rachel Bartley</p> | <p>Diwedd mis Rhagfyr 2015</p> |
| 13 | <p><i>Adolygu a datblygu'r weithdrefn adnabod cleifion i gynnwys y materion a nodwyd.</i></p> | <p>Cynnwys mwy o fanylder yn adran adnabod cleifion yn y Polisi Rheolau Lleol. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i gleifion sydd yn y theatr, mynediad i wasanaethau cyfieithu, a defnydd o'r broses 'Pwylo a Gwirio'. Bydd posteri 'Pwylo a Gwirio', a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Radiograffwyr, yn cael eu harddangos o gwmpas yr adran i atgoffa staff.</p> | <p>Rachel Bartley</p> | <p>Diwedd mis Rhagfyr 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|---|------------------|-------------------------|
| 14 | <p><i>Mae angen gwneud gwaith i gyfuno'r weithdrefn hon i sicrhau bod yr holl wybodaeth ynghylch gwirio statws beichiogrwydd menywod sydd mewn oed i gael plant wedi'i gynnwys ynddi.</i></p> <p><i>Yn y weithdrefn ddiwygiedig, byddai'n arfer da cynnwys cyfeiriad at y weithdrefn amddiffyn plant pe canfuwyd bod plentyn yn rhoi ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn beichiogrwydd.</i></p> | <p>Bydd adran beichiogrwydd y polisi yn cael ei diwygio i gynnwys mwy o fanylder sy'n benodol i arfer lleol.</p> <p>Bydd cyfeiriad i'r</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffurflen leol ar gyfer asesu risg beichiogrwydd, a gaiff ei chwblhau pan fo angen. • Polisi corfforaethol amddiffyn plant mewn achosion o ymateb cadarnhaol i feichiogrwydd. Bydd cyfeiriad at ganllawiau diogelu lleol hefyd. • Rhwystrau ieithyddol a mynediad at wasanaethau cyfieithu. | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |
| 14 | <p><i>Dylid newid teitl y weithdrefn i 'datguddiadau meddygol-gyfreithiol a galwedigaethol', neu dylid cael gwared â'r cyfeiriad at ddatguddiadau galwedigaethol o'r weithdrefn.</i></p> | <p>Bydd adran y polisi yn cael ei newid drwy newid y teitl a/neu gael gwared â'r cyfeiriad at ddatguddiadau galwedigaethol er mwyn bod yn unol ag arferion lleol.</p> | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|------------------|-------------------------|
| 15 | <i>Gellir adolygu'r weithdrefn ar gyfer optimeiddio i gynnwys cyfeiriadau i'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yn yr adran, a gwneud gwelliannau fel yr amlygir uchod.</i> | <p>Bydd adran optimeiddio'r polisi yn cael ei hadolygu er mwyn ymgorffori'r holl bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad.</p> <p>Bydd gwybodaeth amherthnasol yn cael ei dileu.</p> <p>Bydd cyfeiriad i'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol, rhaglenni archwilio, ac adrodd ar ddigwyddiadau y llwyddwyd eu hosgoi.</p> | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |
| 16 | <i>Dylid adolygu'r polisi digwyddiadau niweidiol i gynnwys cyfeiriadau at amserlenni ar gyfer ymchwilio digwyddiadau.</i> | <p>Bydd cyfeiriad at yr amserlenni archwilio ar gyfer digwyddiadau niweidiol yr hysbyswyd amdanynt yn y polisi rheolau lleol.</p> <p>Mae cyfeiriad at amserlenni ar gael yn y polisi cenedlaethol ar gyfer rheoli digwyddiadau niweidiol.</p> | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |
| 16 | <i>Dylid archwilio gwerthusiadau clinigol a gyflawnir y tu allan i radioleg er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau.</i> | Cynhelir archwiliad ym mis Ionawr 2016 i werthuso cydymffurfiaeth â gwerthusiadau delweddau clinigol tu allan i radioleg. Bydd hyn yn cynnwys clinigau cleifion allanol, wardiau (gan gynnwys Uned Therapi Dwys) ac achosion theatr sy'n defnyddio delweddu. | Rachel Bartley | Diwedd mis Ionawr 2016 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|------------------|-------------------------|
| 16 | <i>Ystyried rhoi defnydd o ffolder ymchwil ar waith, er mwyn cefnogi staff i fod yn eglur ynglŷn â datguddiadau ymchwil a'r cyfyngiadau dos/dosau targed cysylltiedig.</i> | Mae ffolder ymchwil ar gael i staff, ond bydd yn cael ei diwygio i gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i staff ar safbwyntiau, cyfyngiadau dosau ac ati. Bydd adran ymchwil y polisi yn cael ei diwygio yn unol â hyn. | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |
| 17 | <i>Gellid cyfeirio at bwysigrwydd rhoi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau i blant yn y weithdrefn optimeiddio, a sut yr arddangosir hyn yn Ysbyty Spire, Caerdydd.</i> | Bydd adran bediatrig y polisi yn cael ei diwygio i gynnwys manylion penodol ar optimeiddio dosau i blant ym mhob maes. Cyfeirio at fynediad i brotocolau penodol pediatrig ar gyfer cyfarpar lle bo'n bosib. | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |
| 18 | <i>Dylid cynnwys cyfeiriad at y chwistrelli gwasgedd yn stocrestr y cyfarpar.</i> | Bydd chwistrelli gwasgedd tomograffeg gyfrifiadurol a'r labordy cathetreiddio cardiaidd yn cael eu hychwanegu i'r stocrestr cyfarpar, yn Atodiad 1M. | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|---|------------------|-------------------------|
| Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | | |
| 19 | <i>Adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn cadarnhau a symleiddio'u defnydd.</i> | Bydd polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn eglur ac yn syml, i gyd-fynd ag arferion lleol. | Rachel Bartley | Diwedd mis Rhagfyr 2015 |
| | <i>Adolygu cynnwys rhai o'r gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.</i> | Bydd newidiadau'n cael eu trosglwyddo i staff drwy'r system darllen ac arwyddo sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. | Rachel Bartley | Diwedd mis Ionawr 2016 |
| | <i>Datblygu cofnodion hyfforddiant cyfarpar ar gyfer radiolegwyr.</i> | Sefydlu cofnodion hyfforddiant i radiolegwyr ar gyfer yr holl gyfarpar perthnasol, a chadw cofnod o'r hyfforddiant hwn yn yr adran ddelweddu, i gefnogi'r system flynyddol ar gyfer arfarnu ymgynghorwyr yr ysbyty. | Rachel Bartley | Diwedd mis Ionawr 2016 |
| Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol | | | | |
| | Dim | | | |

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):.....**Michele Millard**.....

Teitl:**Pennaeth Gwasanaethau Clinigol**.....

Llofnod:..... 

Dyddiad:**3 Rhagfyr 2015**.....